Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Swyddogion Cyllid,
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff, CF10 3NQ

20 Chwefror 2025

Annwyl Gyfaill,

# Ffurflen Gofynion y Gyllideb (BR2) ar gyfer Praesept yr Heddlu, 2025-26

Mae'r llythyr hwn yn cyfrif fel hysbysiad o dan adran 64(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddfwriaeth y DU) ("Deddf 1992").

Ar 21 Chwefror 2025 byddwn yn anfon e-bost at ein swyddog cyswllt yn eich sefydliad, yn cynnwys dolen at daenlen a chanllawiau ynghylch sut i lenwi'r ffurflen. Dylai'r swyddog cyswllt lenwi'r daenlen a'i hargraffu, yna dylai **gael ei hardystio gennych chi**.

Ar ôl ardystio dylech anfon y canlynol atom:

- Copi electronig o'r daenlen ar gyfer prosesu data.
- Copi wedi'i lofnodi o'r daenlen (yn ddelfrydol fel PDF) neu drwy'r post.

## 1. Gwybodaeth am ofynion y gyllideb

Dylech ddefnyddio'r daenlen i ddarparu'r wybodaeth ofynnol dan adran 64 o Ddeddf 1992, fel y'i diwygiwyd, sef gofynion y gyllideb ar gyfer 2025-26 (adran 64(1)).

Mae adran 64(3) yn ei gwneud yn ofynnol darparu'r wybodaeth hon **cyn pen saith diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y cyfrifwyd gofynion y gyllideb.** Os byddwch wedi cyfrifo gofynion y gyllideb ar gyfer 2025-26 cyn derbyn y llythyr hwn, bydd angen ichi lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd at Lywodraeth Cymru **ar unwaith**.

Y dyddiad hwyraf y gallwch gyfrifo gofynion y gyllideb ar gyfer 2025-26 yw **1 Mawrth 2025** (drwy rinwedd adran 40(5) Deddf 1992). Felly rhaid llenwi'r ffurflen BR2 a'i dychwelyd i Lywodraeth Cymru **heb fod yn hwyrach na 6 Mawrth 2025**.

## 2. Cyfrifo fersiwn newydd o ofynion y gyllideb

Os byddwch yn cyfrifo fersiwn newydd o ofynion y gyllideb, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn saith diwrnod (adran 64 (3)). Mewn sefyllfa o'r fath byddai'n rhaid llenwi, ardystio a dychwelyd ffurflen BR2 newydd i Lywodraeth Cymru o fewn y cyfnod hwnnw.

## 3. Cais am ragor o wybodaeth

Mae'r llythyr hwn hefyd yn cyfrif fel hysbysiad dan adrannau 64(4) a 68 o Ddeddf 1992 ac adran 230 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i ddarparu rhagor o wybodaeth i Lywodraeth Cymru. Yr wybodaeth bellach sy'n ofynnol yw'r eitemau sy'n cael eu disgrifio yn llinellau 2 i 18 o'r ffurflen BR2 ac, yn ddarostyngedig i'r hyn sy'n cael ei ddweud yn eitem 1, fe ddylid ei darparu ar yr un pryd â'r wybodaeth am ofynion y gyllideb neu'r fersiwn newydd o ofynion y gyllideb, yn ôl y digwydd.

## 4. Symiau'r dreth gyngor a gyfrifwyd dros saith diwrnod ar ôl cyfrifo gofynion y gyllideb

Os ydych yn bwriadu cyfrifo symiau'r dreth gyngor **dros saith diwrnod ar ôl** cyfrifo gofynion y gyllideb, bydd angen ichi wneud y canlynol:

- cwblhau llinell 1 o ffurflen BR2 a sicrhau fod Llywodraeth Cymru'n derbyn y ffurflen a'r daenlen wedi'u hardystio **o fewn y cyfnod a nodwyd** yn adran 64(3) o Ddeddf 1992;
- cwblhau'r llinellau sydd ar ôl o ffurflen BR2 ar ôl cyfrifo symiau'r dreth gyngor a sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n derbyn y ffurflen a'r daenlen wedi'u hardystio **cyn gynted â phosib**.

## 5. Camgymeriadau a chywiriadau

Os byddwch yn gweld bod camgymeriad neu gamgymeriadau yn yr wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen BR2, dylech anfon ffurflen newydd wedi'i hardystio a thaenlen ddiwygiedig i Lywodraeth Cymru **cyn gynted â phosib**.

Os byddwch yn cyflwyno ffurflen newydd (boed yn sgil cyfrifiad gwahanol neu gywiro camgymeriadau), rhaid ichi ddweud yn glir ei fod yn disodli unrhyw ffurflen arall flaenorol.

## 6. Manylion cyswllt

Anfonwch yr holl ohebiaeth, gan gynnwys hysbysiadau am fersiynau newydd o'r cyfrifon (gweler eitem 2) ac ymholiadau yn y lle cyntaf at: YCLLL.Trosglwyddo@llyw.cymru

**Ffôn**

Jack Tennant: 0300 025 9221

Frank Kelly: 0300 025 5673

**Post**

Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol,

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,

Llywodraeth Cymru,

Parc Cathays,

Caerdydd,

CF10 3NQ

Diolch ichi am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Anthony Newby
Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol / Local Government Finance Statistics,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Knowledge and Analytical Services,
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol / Finance and Corporate Services,
Llywodraeth Cymru / Welsh Government